

LLAIS YR ANDES

RHAGFYR 2019





Teyrnged bersonol i'r diweddar chwaer, Gwladis Pritchard de Freeman Gan Hazel Charles Evans

Colled arall i'r Wladfa Gymreig. Un o ferched y Dyffryn yn wreiddiol oedd Gwladis Pritchard de Freeman ac yn un a ymfalchiai yn ei gwreiddiau. Symudodd i Esquel ar ôl priodi ac yno yr ymgartrefodd am flynyddoedd lawer cyn iddi hi symud, yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ei hanes i Gomodoro Rivadavia, lle cafodd gariad a gofal gan ei merch, Liliana a'i theulu.

Yn Esquel y des i i adnabod Gwladis yn gyntaf a hynny pan gefais fy mhenodi i fod yn athrawes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ym 1997. Er yn ymddangos yn berson mewnbylg ar y cychwyn, buan y sylweddolais fod i'r wraig eiddil hon ddoniau cudd! Yn ddi-os bu'r oedfaon yn Seion a'r dosbarthiadau Cymraeg yn rhyw fath o lwyfan i Gwladis oherwydd yno y cafodd gyfle i 'berfformio'. Ni chlywais neb yn darllen emyn neu bennod gyda'r fath arddeliad. Gallai fod wedi gwneud enw iddi i hun fel actores o fri! Daeth yr elfen hon i'r golwg wrth iddi actio mewn sgets ar ôl sgets gyda'r diweddar Lizzie Lloyd a Rini Griffiths. Triawd cofiadwy yn y nosweithiau llawen a gynhaliwyd yn ystod fy nghyfnod i.

Cofiaf gyda diolchgarwch am ei ffyddlondeb i'r gwasanaethau yn Seion. Y modd y galwai heibio i mi yn y 'moto' bob Sul. Y modd y gwerthfawrogai y neges o'r pulpud ynghyd â'r hyn a wnawn yn y dosbarth. Fe'm galwai yn 'Eisel' gan fy nghyflwyno gyda balchder, i bawb o'i chydabod yn y dref fel 'Mi mestral Nid anghofiaf, chwaith, am y trafodaethau a gawn wrth eistedd wrth ei bwrdd o dro i dro a phrofi o waith ei dwylo boed yn fara menynd neu deisen blât! Brysiau i ddweud nad oedd Gwladis yn rhy fawreddog chwaith i eistedd wrth fy mwrdd innau yn 9 de julio er y golygai hynny baned syml a factura o'r Anonyma! Y cwmni oedd yn bwysig a'r gymdeithas.

Mor falch yr oeddwn o gael ei gweld ar ei haelwyd yng Ngnomodoro yn ddiweddar. Ces afael yn ei llaw a'i choffleidio. Buom yn chwerthin wrth iddi ddynwared ambell gymeriad adwaenai ym more oes. Yn eiddil o ran ei cnorrff, ei golwg wedi pylu, ond ei haf fel rasel a'i hysbryd yn uchel. Cawsom air o weddi a hithau'n gwerthfawogi hynny.

Diolch am gael adnabod Gwladis. Cymeriad yn wir. Que personaje! Bydd ei theulu a'i chyfeillion i gyd yn gweld ei heisiau yn fawr. Mae ein cydymdeimld dwysaf yn mynd Liliana a ofalodd mor dyner am La Reina, ac i'w phriod, Jorge, a'r teulu gan gynnwys Eilyw a Gwen.

Bendith arnoch. Bu'n daith ar fôr tymhestlog, ys dywedodd yr emyn, ond credwn i Gwladis fydd i gyd sydd well i fyw trwy ei ffydd yng Nghrist Iesu, ei Gwaredwr.

Arogl Aberystwyth

Bues i yn Aberystwyth dwy flynedd yn ôl, ers hynny mae pawb yn gwybod fy mod i wedi syrthio mewn cariad efo'r lle. Pob tro dw i'n siarad amdani, a dw i'n cofio pa mor hapus roeddwn i yno. Ond mae un peth nad does neb yn ei wybod, dwi wir yn hoffi defnyddio persawr, fel arfer dw i'n ei wisgo pan ddwi'n codi yn y bore. Cyn i ddechrau fy antur, prynais bersawr newydd, dim ond i newid yr un roeddwn i'n defnyddio. Yn amlwg, ar ôl taith hir, oedd y botel yn gwagio, ond prynais yr un persawr pan gyrhaeddais nôl adre, a dych chi'n gwybod beth?, defnyddiais am tua blwyddyn, ond pan sylweddolais ei fod yn troi yn gwagio, prynais bersawr arall, hollol wahanol, a phenderfynais gadw'r un yr oeddwn wedi'i ddefnyddio yn Aberystwyth.

Ac weithiau, pan ddwi'n teimlo yn hiraethus, dw i'n cau fy llygaid a dwi'n arogl i'r hen botel efo'r persawr, a daw'r hen atgofion i'm meddwl. Dyna'r ffordd fy mod i deimlo am eiliad bach mewn byd iwtopaidd. Ffordd i deithio mewn pryd i Aber efo'r teimladau, ac wedyn, dw i'n barod i adael'r botel fach yn y tŷ a chychwyn fy niwrnod.

Paid â meddwl fy mod i'n wallgo, dim ond person hiraethus ydw.

Noe Sanchez Jenkins





Y Goeden Alerce

Mae Parc Cenedlaethol Los Alerces wedi'i leoli yn yr Andes yn Nhalaith Chubut, yn agos at Esquel a Trevelin, ac mae ei ffin orllewinol yn cyd-fynd â ffin Chile. Mae cyfres o rewlfoedd wedi siapia tirwedd yr ardal hon dros ddegau o filoedd o flynyddoedd, gan greu nodweddion ysbennus fel marianau, peirannau rhewlifol a llynnoedd dŵr clir. Coedwigoedd tymherus trwchus sy'n dominyddu'r llystyfiant, ac mae'r coedwigoedd hyn yn troi mewn i ddolydd alpaidd yn uwch i fyny o dan gapau creigiog yr Andes.

Un o nodweddion pwysicaf y Parc yw'r goedwig alerce (*Fitzroya cupressoides*). Er mae llorwydd yw ystyr y gair Sbaeneg alerce, nid llorwydd mohonynt ond cypreswydden. Hon yn coeden fwyaf De America, ac mae'n gallu tyfu i fod dros 70 metr o uchder, o 5 metr ar ei draws. Mae'r coed dan fygythiad yn fyd-eang, ac fe estyngwyd eu niferoedd yn sylweddol yn ystod yr 20fed ganrif o ganlyniad i'r diwydiant coedwigoeth - gall un goeden gynhyrchu hyd at 600 o blanciau o 3m o hyd a 0.5m o led.

Mae'r coedwigoedd alerce yn y parc mewn cyflwr codwraethol rhagorol, ac mae'r Parc yn hanfudol ar gyfer amddiffyn rhai o'r dognau olaf o Goedwig Batagonaidd cysefin.

Crëwyd y parc ym 1937 i amddiffyn coedwigoedd alerce, sy'n cael eu galw'n lahuán gan y bobl Mapuche frodorol, ac mae'n gartref i'r goedwig alerce fwyaf yn yr Ariannin. Mae'r goeden hon yn aml yn cael ei gymharu o ran ymddangosiad â choed Sequoia yn yr Unol Daleithiau, gan eu bod yn tyfu i fod yn anferthol. Mae'n un o'r coed sy'n byw hŷaf yn y byd, ac mae rhai yn Chile sydd dros 1,600 mlwydd oed. Mae'n tyfu'n araf dros ben - gyda dim ond tua 1mm o risgl yn tyfu'n flynyddol.

Mae'r goeden alerce fwyaf adnabyddus y parc, sef El Abuelo neu Told, dros 57 metr (187 tr) o daldra 2.2 metr (7.2 tr) mewn diamedr, o dros 2,600 o flynyddoedd oed. Mae wedi ei leoli ger porthladd bychan o'r enw Puerto Sagrario, ym mhen gogleddol Llyn Menéndez. Credir bod coed talach a mwy o faint yn bodoli ar fraich de-orllewinol Llyn Menéndez, ond mae mynediad i'r ardal honno'n gyfyngedig.

Mae coedwigoedd alerce wryfaf y parc yn gorchuddio ardal o 7,407 hectar (18,500 erw), ac maent i'w canfed ar hyd dwy fraich Llyn Menéndez, yn rhan uchaf Cronfa Ddŵr Amutui Quimey ger Trevelin, ac ar hyd y nentydd sy'n bwydo i'r llynnoedd hynny.

Gwion Ellis-Williams



Y
S
G
O
L

Y

C
W
M

ES I PARC. **MARCUS**
BWYTAIS CUCLED.
GWELAIS NIA.
YFAIS I COCA.
CHWARAEAIS I GIDA REECA.
CYSGAB I GYMAH.
RHEGAI I GIDA VALENTINA.
YSOLYDIAIS I GIDA REECA.

ES I I MEXICO. **IGNACIO**
BWYTAIS I BURRITO.
GWELAIS I MAM.
YFAIS I COCA.
CHWARAEAIS I GIDA REECA.
CYSGAB I GYMAH.
RHEGAI I GIDA VALENTINA.
YSOLYDIAIS I GIDA REECA.



ES I I PARC GYDA BRAID.
BWYTAIS I HUFEN IŴ.
GWELAIS I LUZAN.
YFAIS I COCA. **SARA**

ES I I SINEAD. YFAIS IŴ. **BRYANNA**
CYSGAB I GYMAH. GWELAIS I SIOB.



Newyddion Blwyddyn 1

ES I GARILOCHE. **NICOLE**
BWYTAIS I HUFEN IŴ.
GWELAIS I MŴLEN.
CHWARAEAIS I GIDA REECA.
YFAIS IŴ.
GWELAIS I TŴ NIA.



ES I TŴ JULIAN.
CHWARAEAIS I GIDA PLAY.
GWELAIS I NIA.
YFAIS I HUFEN IŴ.
GYDA JULIAN. **JOSIAS**

ES I IŴ SIOB.
ES I ESDUEL. **FAUSTO**
ES IŴ PARC.
GWELAIS I SARA.
BWYTAIS I SIOCLED.
DYDD IAU BWYTAIS I FIDEQS.
ES I TŴ NAIN.

Pwy ydwr i? Dyfalu gyda Blwyddyn 3

Frans:	Thiago:	Emmie:	Gwenni:
Anifail ydwr i.	Anifail ydwr i.	Person ydwr i.	Anifail ydwr i.
Dwr i'n byw yn yr amudwrth.	Dwr i'n ddi o india.	Dwr i'n byw yng.	Dwr i'n ddi o gwrdd heid.
Mae gwennwrn da fi.	Mae 4 coes gyda fi.	Nghymru.	a lladrith.
Dwr i'n hoffi bwyta cig.	Dwr i'n bwyta cig.	Dwr i'n gach, gwyrn a gwyrdd.	Mae pedwar coes a triongel yn talcen gyda llawer o llwgar.
Dwr i'n llwyd, brown ac mwr.	Dwr i'n llaw oren a du.	Mae trwydd da gyda fi.	Dwr i'n hoffi bwyta porff.
Dwr i'n hoffi cwrdd.	Dwr i'n hoffi bwyta.	Dwr i'n hoffi parti gyda ffrindiau.	Dwr i'n llaw gwin pinc a llawer o llwgar sglenier.
Dwr i'n hoffi cwrdd.	Dwr i ddim yn hoffi pet-droed.	Dwr i ddim yn hoffi cwrdd.	Dwr i'n hoffi heidwrn.
Dwr i'n hoffi cwrdd.			Dwr i'n hoffi cwrdd.
Nedwr	Telgr	Mistwr Urd	Uncom



Y
S
G
O
L

Y

C
W
M



在函数 $f(x)$ 的图像上, 任取一点 $P(x, y)$, 则 $y = f(x)$.

For signature in White Matter

Hloffau i ffordd i Bwth Madrug,
 ydyd fy mhwy. Hloffau i
 wlad rhedeg, dwi i'w wlad
 mwydied. Dwi i'w wlad i
 siopa dwi i'w wlad i'w wlad
 Bwth hi i'w wlad i'w wlad
 Madrug, bydd hi i'w wlad
 i'w wlad Madrug.



The following are the results:

1. History: First made in 1940s
 2. General: Fast and efficient
 3. Advantages: Good for
 4. Disadvantages: Not very
 5. Conclusion: It is a good
 6. References:

May 1965



Fy Ngwyliau



Gwaith Blwyddyn 3

27-08-1960 near Kumbhari

H
H
g
T
a
D
D
D
Y
3

Fu - Nominative no / 10 FGB

1. Hoffen i Funt i Surs 18. 19da Guerra
AFLAVER. **HOFFEN** i mola + PACHAV
A mola i Surs 18. Dui Extra Guala
SAR va v **WIRBEN** Du dui
WIRBEN. Dui dui i PACHAV. Bui dui
BUI Funt i Surs 18. Dui va dui dui.

JANE ANN DUNN



Dyma Gwm

Hyfryd

Ym 1885, trefnwyd i dri deg o ddynion Cymraeg deithio o'r Dyffryn yn Nwyrain Chubut tua'r gorllewin i gychwyn a'r bwriad o ddod o hyd i dir ffrwythlon a fu'n addewid iddynt cyn cyrraedd. Tir allu fu gyenith a dechrau diwydiant i roi sylfaen ariannol i Gymry'r Wladfa. Teithion nhw dros y paith ddifffraith yn ddall heb wybod beth oedd o'u blaenau a chyraedd y Graig Goch, craig sy'n ddiwedd i'r sychder ac sy'n cawrio dros filltiroedd o dir glas wrth droed yr Andes. Roedd sibrydion y Tehuelches (brodorion Patagonia) yn wir, dyma oedd dechrau newydd i'r Cymry ym Mhatagonia.

Bob blwyddyn, er mwyn nodi darganfyddiad y Cymry, bydd poblo Gwm Hyfryd yn teithio i ben Craig Goch ar y 21ain o Dachwedd, rhai ar droed a llawer iawn ar gefn ceffylau. Pan gyrheiddith pawb, bydd seremoni yn agor gydag anthem genedlaethol yr Arianin, yna eglurhad o hanes y Cwm a'r anthem Gymraeg i gloi. Eleni, buom yn ffodus o fwynhau cwmni Aled Wyn Davies a Rhys Meirion, a'u clywed yn canu'r anthem Gymraeg i nodi diwedd y seremoni. Diolch yn fawr i chi, bu i hawb wireddu ar y cyfle i glywed tenorwyr enwog Cymru yn arwain yr anthem!

Ar y 23ain o Dachwedd, mae byddin yr ardal yn arwain gorymdaith ar strydoedd Trevelin. Ohwerydd hanes yr ardal, Cymdeithas Gymraeg Trevelin ac Ysgol yr Andes yng nghyd â Ysgol y Cwm sy'n gyfrifol am gario'r faner Gymraeg. Eleni, bu i blant Ysgol y Cwm wisgo fel rhai o gymeriadau adnabyddus i blant megis Sali Mali a Sam Tân a'r plant wrth eu boddau. Yn eu dilyn, daw holl ysgolion yr ardal yn cario'i baneri. Bydd Dynion Tân Gwirfoddol Trevelin, clybiau lleol ac Undebau Amaethyddol yr Ardal yn ran o'r orymdaith hefyd. Dyrnod i arddangor hanes a diwylliant Cwm Hyfryd a balechio ar holl lwyddiannau'r sefydlwyr.



*Ysgrifennwyd
gan Jessica
Jones*



ithiau dros y paith

Mae yna llawer o ymwelwyr wedi bod yn yr Andes yn diweddar. Dewch i ddarllen am ei hanes.

Taith yr Urdd 2019



Am ddeuddeg mlynedd, mae Urdd Gobaith Cymru wedi trefnu i 25 o bobl ifanc ymweld â'r Wladfa yn flynyddol ac unwaith eto, mae eu hymweliad wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Daeth y grŵp brwdfrydig i Gwm Hyfryd ym mis Hydref gan ddechrau gydag ymweliad i ysgol wledig Futalaufquen, sydd ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces. Arweinwyd y criw gan ddisgyblion hynaf yr Ysgol drwy gyfrwng y Saesneg o gwmpas meithrinfa goed yr ysgol a'r gymuned leol. Roedd hyn yn gyfle gwych i ddisgyblion yr ysgol gael ymarfer Saesneg gyda siaradwyr o Brydain.

Dysgodd yr Urdd am blanhigion a byd natur yr ardal, ond yn bwysicach fyth, dysgon nhw am effaith ddinistriol tân gwyllt ar y Parc – bod yr anifelliaid brodorol yn diflannu, sut mae llifogydd yn diffrwythloni'r tir noeth gan rwystro ail dyfiant a'r effaith ar dwristiaeth.

Yn wahanol i'r arfer, roedd ymweliad blynyddol Coleg Camwy o'r Gaiman yr un pryd a'r Urdd, ac felly bu i'r tair cymuned fwynhau cwmni ei gilydd yn yr ysgol. I gloi diwrnod dymunol, daethant at ei gilydd ar gae pêl droed i gyfathrebu trwy iaith gyffredin bloeddiau gêm bêl-droed.

Mae ymweliad yr Urdd yn hollbwysig i ysbrydoli cenedlaeth ifanc y Wladfa i ddefnyddio'r Gymraeg a'i ddatblygu i fod yn gyfoes. Trefnwyd gweithgareddau dawnsio a chanu gan yr Urdd yn Ysgol y Cwm ac yng Nghlofan Hazel Charles Evans yn Esquel gan olygu bod plant yn profi defnydd yr iaith gan bobl ifanc, llawn egni a chynnwrf. Roedd y plant wrth eu boddau gyda'u hymweliad, ac am eu rhoddion! Diolch yn fawr i'r criw hefyd am eu gwaith caled yn paentio cymeriadau bywiog ar furiau allanol Ysgol y Cwm. Rydym oll yn ddiolchgar iawn o'ch gwaith caled gyda phlant ifanc Patagonia!

Un o uchafbwyntiau ymweliad yr Urdd yw'r cyngherddau yn Salon Central yn Nhrevelin a Chapel Seion yn Esquel. Mwynheudd y gymuned berfformiadau gwfreiddiol o ganeuon clasurol Cymreig gan grwpiau ac unigolion o fewn y criw. Roedd hi'n fraint cael clywed Steffan Prys Roberts a fuodd yn un o'r tywyswyr yn perfformio gyda'r criw. Cynhaliwyd asado (barbeciw'r Ariannin) hyfryd ar fferm



Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies yn Esquel^{Esther}



Bu Pwyllgor Cymdeithas Gymraeg Esquel yn brysur iawn yn trefnu ar gyfer yr ymweliad cyffrous yma. Pawb yn disgwyl amdanynt. Daeth tua 40 o gyfeillion efo nhw. Clwb ffans! Cyrhaeddodd ar 21 o Dachwedd a hithau yn bawn braf iawn. Aethom bawb i ddechrau i mewn i Gapel Seion a chael gair a chroeso iddynt gan Silvia a Noe. Canu "Gwahoddiad" efo'n gilydd, bu hyn yn emosynol iawn. Yna, yn y Ganolfan, pryd o fwyd a chyfle i gyfarch a chael sgwrs efo'r cwmni cyfeillgar yma. Rhai ohonynt wedi bod o'r blaen yn Y Wladfa ac eraill yn dod am y tro cyntaf.

Bore wedyn, aethon nhw i ardal Trevelin i dreulio'r diwrnod a chyngerdd yno gyda thalentau lleol a phlant bach Ysgol y Cwm. Bendigedig! Nos y 23 Tachwedd, roedd neuadd Rural Esquel yn orlawn o bobl yn barod i fwynhau gwranddo ar Rhys Meirion ac Aled Wyn, ynghyd a Leonardo ac Alejandro, plant Ysgol gynradd N° 24, plant o gartrefu hollol ddi-gymraeg wedi eu hyfforddi gan Diana yn canu "Calon lân" gyda brwdfrydedd. Hefyd roedd Cerddorfa plant ac ieuenctid sydd yn ymarfer yn y Ganolfan Gymraeg, a Glenda yn arwain. Roedd yr elw yn mynd i helpu'r ysgolion a chymdeithasau Cymraeg. Noe bu yn arwain y noson a chyfieithu. Noson wych! Bythgofiadwy. Rhaid cofio hefyd am Menna, y cyfeilydd dawnus.

Roedd pawb am gael cais neu lun efo Rhys Meirion neu Aled Wyn Davies, y ddau mor dalentog, ddiymhongar a chyfeillgar. Mae pawb wedi mynd nôl am Gymru erbyn nawr. Diolch iddynt am ddod. Mae'n hwb fawr i'r galon. Ac mae hiraeth yn barod...

Diolch i'r holl rai fu mor ddiwyd yn gweithio ar gyfer yr achlysur pleserus yma.





Rhannu Anturiaethau gyda Tra bod Dau yn yr Andes

Alejandro Jones

Mae'r amser wedi mynd yn gyflym, ac roedd criw mawr yn fodlon ymuno'r cantorion er mwyn byw'r profiad yn Y Wladfa Gymreig, a theithient nhw i gyd i gefnogi cynllun yr iaith trwy'r trefniadau gan Deithiau Tango.

Bydd hŷn anodd iawn i'r Andes anghofio mis Tachwedd eleni. Mae'n wir fod y mis fel arfer yn fls prysur, lle yr ydym yn dathlu dyfodiad Coronel Fontana a'r Rifleros i Gwm Hyfryd, ac mae bob math o ddathliadau yn mynd ymlaen; o "actos", "jineteadas", gorymdaith lliwiol a phoblogaidd, i gyngherddau a dringo'r i dop y Graig Goch a chanu Hen Wlad fy Nhadau mewn awyrgylch unigryw. Ond eleni cawsom gyfle i ychwanegu i'r dathliadau, digwyddiad arbennig sy'n mynd i aros am byth y n ein cof.

Blwyddyn yn ôl, tra roeddwn i a fy nheulu bach yn treulio amser yng Nghymru, syniad bach neis cafod ei fagu ar feddwl Rhys Meirion: Teithio i'r Wladfa efo Aled Wyn Davies a threfnu cyngherddau Tra Bo Dau gydag artistiaid lleol i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r ysgolion dwyieithog yn Chubut. Roedd y cynllun yn edrych yn fawreddog ac yn anodd ar y pryd, ond pan mae achos yn dda, does dim byd yn amhosibl!

Da oedd gweld bob cyngerdd yn llawn dop. Archentwyr a Chymry yn mwynhau repertoire rhyngwladol y ddau denor gydag artistiaid lleol yn cefnogi'r nosweithiau. Bydd pob ceiniog a chafod ei gasglu yn mynd i ysgolion dwyieithog y dalaith, a phob un o heini'n falch ofnadwy am eu cefnogaeth.

Yn bersonol, gaf i ddweud fod y ddwy noson, y 22ain o Dachwedd yn Nhrevelin ac y 23ain o Dachwedd yn Esquel wedi bod yn emosiynol iawn. Roedd plant Ysgol y Cwm, Dawnsyr Cwm Hyfryd, plant Patagonia Instruments Project yn Nhrevelin, a phlant Ysgol 24 a Cherddorfa Di Biasi yn Esquel wedi rhoi blas arbennig o dda i'r nosweithiau. Roedd Rhys ac Aled, gyda chyfeiliant anhygoel Menna Griffiths yn mynd a ni trwy ganeuon traddodiadol Cymreig fel Y Ddau Wladgarwr, clasuron fel Granada a Nessum Dorma. Yn derfyn i'r noson, cydganem Anfonaf Angel, gyda'n calonau yn curo.

Roedd rhannu llwyfan efo nhw a fy mrawd, yn cydganu "El día que me quieras", "Calon Lan" a "Gorfoledd" yn fraint gawraidd, a dy ni'n falch iawn am y cyfle. Methu aros i gyfarfod nhw eto, ffrindiau annwyl a charedig dros ben, yn rhannu asados, lot o fate, gwydr o win, neu banad o de, yma ac acw.

Diolch am alw Tra bo dau! A tan tro nesa!

ANTURIAETHAU CRIW EIRIAN LEWIS

YN ÔL YR ARFER, DAETH CRIW O 27 O BOBL I'R CWM DAN ARWEINIANT EIRIAN LEWIS. AR ÔL MWYNHAU'R EISTEDDFOD A'U HYMWELLAD YN Y DYFFRYN, DAETHANT I YMWEID A'R CWM. PARATOWYD DE A CHACENNAU YN YSGOL Y CWM I GROESAWL'R CRIW I YSGOL Y CWM A CHYFLE I DDOSBARTH TRI DDYSGU SGILIAU TYWYSE. ROEDD HYN YN BROFIAD A CHYFLE GWYCH I'R PLANT DDEFNYDDID EU CYMRAEG. YN ESQUEL, CAWSOM NOSON GYMDEITHASOL I'W COFIO, LLAWN SGWRS A CHÂN A BWYD BLASUS.

RYDYM YN DDIOLECHGAR IAWN O'R RHODD ARIANNOL GAN Y CRIW I YSGOL Y CWM O \$695 YNG NGHYD A GWERTH \$121 O LYFRAU I'R YSGOL. ROEDD Y RHODD AR KAN PHWYLLGOR CYFELLIO ABERTTEFL A THREVELIN: COFION ANNWYL AT JOHN ADAMS LEWIS, MAER ABERTTEFL A'I WRAIG MORINA ADAMS LEWIS.

MWYNHAWYD NOSON LLAWN HWYL FEL TERFYN I'R YMWEITAD A'R CWM AR FFERM MARGA A CHARLIE GREEN. GOBETHID

GORSEDD Y WLADFA

MAE'N FRANT AC YN ANRHYDEDD CAEL DERBYN LLYWYDDIAETH GORSEDD Y WLADFA AR GYFER Y TAIR BLYNEDD NESAF.

EDRYCHAF YMLAEN AT GYD WEITHIO GYDA PHWYLLGOR BRWDFRYDIG I DDATHLU DYFODOL EIN HLAETH TRWY DDJWYLLIANT EISTEDDFODAU'R WLADFA A SICRHU EI DYFODOL.

BRAF OEDD CAEL HAZEL CHARES EVANS YN GWMNI YN Y SEREMONI ELENI I RANNU ATGOFION MELYS O'I CHYFRANTAD YN YR ANDES FEL EIN TIWTOR CYNTAF O GYMRU.



ALWEN GREEN

Ni allaf ddianc rhag HON...

Dychwelais i Gymru ym 1999 ar ôl gweithio yn yr Andes am ddwy flynedd - yr athrawes gyntaf a benodwyd o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg. Profiad, felly, oedd cael ymweld eleni, union ugain mlynedd ar ôl i mi adael. (Pysuraf i ddweud, er hynny, mai hwn oedd fy mhedwerydd ymweliad ar ddeg â'r Wladfa!) Ys dywedodd rhyw fardd am Gymru - 'Ni allaf ddianc rhag HON.' A hwyrach taw dyna fy mhrofiad innau am Y Wladfa. Gallwn ysgrifennu cyfrol yn wir! Wedi dweud hynny bydd llyfryn yn ymddangos maes o law lle mae nifer o athrawon y Cynllun wedi sôn am eu profiadau o fyw a gweithio. Edrychwch allan amdano. Mae profiad pawb yn wahanol.

Os edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd ac yn bennaf ar ddiwedd nawdegau'r ganrif ddiwethaf pan ddaeth y Cynllun i fod, rhaid i mi ddweud fy mod wedi derbyn croeso breichiau agored. Ar ryw ystyr roedd hi'n hawdd arna i oherwydd ces fynd ati i fraenaru'r tir a thorri fy nghwys fy hunan. Safydlu dosbarthiadau yn Esquel ac yn Nhrevelin a hynny ar gyfer pob oed a phob lefel. Dyna'r tro cyntaf i mi weld pobol yn ffurfio rhes (ciw, cwt yn nhafodiaith y De) er mwyn mynychu dosbarth Cymraeg. (Gweler y llun ar y tudalen nesaf) Nid dim ond cynnal dosbarthiadau ffurfiol oedd yn bwysig i mi, ond cael pobol at ei gilydd i gymdeithasu, i fwynhau eu Cymreictod trwy ganu, llefaru ac actio. Y fath hwyl a gafwyd a'r fath flas a gafwyd hefyd wrth wyllo ffilmiau Cymraeg ar y sgrin fach. Yn ystod y cyfnod hwn y daeth y papur bro, LLAIS YR ANDES i fod. Bydded iddo barhau!

Rhaid sôn hefyd am y Sul yn Esquel. Diolch am y fraint a gefais o gynnal gwasanaethau yn Seion a chael pobol mor barod i dderbyn arweiniad. Cafwyd oedfaon pregethu, ambell Astudiaeth Feiblaidd a gweinyddwyd y Cymun yn fisol.

Y plaser mwyaf oedd gweld aelodau yn codi ar eu traed i ddarllen emyn neu bennod rhywbieth nad oedden nhw wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer. 'D'nd oedden nhw'n ddyddiau da?'

Dyna'r gorffennol! Ac ni ddaw ddoe yn ôl!

Beth am y presennol? Os safbwynt Trevelin mae cyn fentro wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Saif Ysgol y Cwm fel angor i'r Gymraeg a Chymreictod. Mae'r siaradwyr naturiol Cymraeg, ysywaeth, yn mynd o un i un, ond y gobaith yw y bydd to newydd yn codi i siarad yr iaith yn rhugl ac yn ei defnyddio yn y gymuned. Yr hyn a'm calonogodd yn Esquel oedd gweld tîm newydd wrth y llyw a nifer ohonynt yn ferched ifainc. Ie, calondid o'r mwyaf oedd gweld rhai a fu'n ddisgyblion i mi ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn yn diwtoriaid Cymraeg eu hunain. Yn ddi-os, mae hyn yn profi gwerth y Cynllun Dysgu Cymraeg. Daeth cyfle i gynnal oedfa yn Seion y tro hwn eto a chael pregethu i gynulleidfa werthfawrogi. Roeddwn yn ymwybodol iawn o'r colledion ond brafoedd gweld wynebau ifainc ymhlith y gynulleidfa. Daliwch at eich ffydd.

Diolch i bawb sy'n rhoi o'u hamser i mi i weithio yn y Wladfa. Mae'n achos llawenydd i mi fod

Hazel Charles Evans



Un o dosbarthiadau gloywi iaith yn Esquel

Mae effaith Hazel ar y gymuned Gymraeg yn yr Andes dal i'w weld hyd heddiw. Nid yn unig yn ystod y ddwy flwyddyn gyntaf hynny ond y gwaith mae hi dal i wneud dros y gymuned ar gymdeithas. Nid ar chwarae bach y mae gwneud y fath waith mae hi wedi gwneud! Hazel oedd yn gyfrifol am yr ymgyrch "Brics i Batagonia" a fuodd yn llwyddiant ysgubol - mae yna dudalennau o enwau o bobl a brynodd bricsen yn yr hen festri yn y ganolfan yn Esquel.

Mae'r diolch felly yn fawr i Hazel am ei holl waith dros y blynyddoedd a hefyd am fod yn ffrind mor annwyl i'r Wladfa.

Dysgwyr y flwyddyn.

Am bum mlynedd, mae Hazel Charles Evans wedi galluogi i Gymdeithas Gymraeg Trevelin wobrwyo disgyblion fel Dysgwyr y Flwyddyn gyda medal a \$50. Eleni, penderfynom wobrwyo dau ddisgybl am eu hymdrechion dros y flwyddyn.

Emilia Jones

"Dewiswyd Emilia Jones fel Dysgwr y Flwyddyn o ddosbarth i Blant. Mae Emilia yn ddisgybl brwdfrydig a galluog tu hwnt gan ddangos diddordeb tuag at yr iaith. Mae hi wrth ei bodd yn dysgu caneuon Cymraeg ac mae'n braf ei gweld yn perfformio gyda'i theulu ac mewn eisteddfodau trwy'r Gymraeg. Da iawn ti Emilia!"

Gruffydd Ifan, tiwtor dosbarth plant Ysgol yr Andes.



Dana Jara

Rhoddwyd y \$50 fel gwobr i Dana Jara gan ei diwtor Gwion Ellis Williams am ei brwdfrydedd nid yn unig yn dysgu'r iaith ond am ei bod hi'n dangos diddordeb yn niwylant a hanes Cymru.

"Dana yma! Dw i wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn. Dw i'n hapus iawn gyda'r wobwr achos dw i wedi gwneud fy ngorau glas dros y flwyddyn i fynd i bob dosbarth ac i siarad mwy o Gymraeg. Beth fydda i'n ei wneud efo arian? Wel, gan fy mod i wedi ennill ac am ddal i ddysgu Cymraeg, dw i eisiau ei gadw ar gyfer cofrestru i sefyll yr arholiad blwyddyn nesaf! Ac i brynu fy llyfr Cymraeg nesaf i ddal i ddysgu! Dw i'n ddiolchgar i gymdeithas "Ysgol Yr Andes" am roi'r wobwr i fi, a dim diolch yn fawr iawn i Hazel Charles Evans wrth gwrs!"

Dana Jara, enillydd Dysgwr y Flwyddyn



Nason gloi Esquel...

Ar brynhawn Sadwrn y 7fed o Ragfyr daeth athrawon, dysgwyr, plant a'r rhieni at ei gilydd i ddod a blwyddyn arall brysur o ddysgu a mwynhau i ben. Cychwynnwyd y prynhawn gyda dosbarth y plant yn cyd-adrodd 'Parti' gan Gwyn Thomas yn arbennig o dda. Wedi hyn roedd hi'n amser rhoi tystysgrifau allan i bob dysgwr oedd wedi mynychu gwersi'r flwyddyn yma a braf oedd cael gweld gymaint ohonyn nhw yna.

Cyn rhoi'r fedal i ddysgwr y flwyddyn roedd yna fwy o adloniant gan y plant; yn gyntaf gan y rhai lleiaf o fewn yr ysgol yn canu am y 5 crocodeil ac wedyn y dosbarth plant eto yn dawnsio dwy ddawns gwerin - diolch i Marina ac i Glenda am ddysgu'r plant mor dda roedden nhw yn bleser i'w gweld.

Wedyn ymlaen i roi'r wobr am ddysgwr y flwyddyn a'r fedal a'r wobr o \$50. Y flwyddyn yma Monica Eggly a Lilian Harris oedd y derbynwyr am ei ymroddiad tuag at y gwersi a tuag yr iaith gan fanteisio ar bob cyfle i ymarfer ac rydym i gyd yn llongyfarch nhw am hyn.

Dim ond gair bach yn ddiwedd i ddweud diolch i'r holl athrawon am eu holl waith caled a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn ac wrth gwrs diolch i'r dysgwyr hefyd am ddangos diddordeb yn yr iaith.



Cynllun offerynnau Patagonia (PIP - Patagonia instrument project)



Roedd 2015 yn flwyddyn fawr o ddathlu o bob man ond braf ydy gweld bod y dathlu wedi parhau. Fyddai Ysgol y Cwm ond yn freuddwyd oni bai am yr angen i weithio i sicrhau bod y Gymraeg yn fyw yng Nghwm Hyfryd a bod yn werth ei phasio ymlaen i genhedlaeth newydd. Ond hefyd gwnaethpwyd sawl ddolen newydd arall ac un ohonynt oherwydd ymweliad Cerddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC.

Nid oedd lleoliad addas i gynnal cerddorfa lawn yn yr Andes felly cawson ni'r fraint o dderbyn y delynores byd enwog Catrin Finch i'r Andes a chynhaliwyd cyngherddau yn Esquel a gweithgareddau yn Nhrevelin. Aeth grŵp Arcos al Sur – grŵp llinynnau o Drevelin – i'r Dyffryn i gymryd rhan mewn gweithdal a gynhaliwyd gan arbenigwyr y gerddorfa ac roedd un aelod o'r gerddorfa mor emosiynol am y profiad ddechreuodd feddwl... yma yn y Wladfa mae llawer llai o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddechrau dysgu offerynnau oherwydd bod cymaint lai ohonynt ac mewn llawer o achosion nid oes digon o arian dros ben i fentro prynu offeryn heb wybod os fydd y plentyn yn mwynhau cymaint.

Cafodd Chris Stock, sydd yn chwarae offerynnau taro yn y gerddorfa, y syniad o ofyn o gwmpas yng Nghymru os oedd hen offerynnau ar gael – efallai bod rhywun wedi rhoi'r ffidyl yn y to er enghraifft! – a'u casglu i'w hanfon at y bobl yn y Wladfa oedd eisiau chwarae miwsig. Trwy wyrth a llawer o waith caled ar ran Chris ac ar ran Gymdeithas Gymreig Porth Madryn, Silvina Garzonio Jones yn enwedig, ac ar ran y Llywodraeth yn y Dalaith, Kenia, cyrhaeddodd lond container o offerynnau i'w rhannu rhwng y bobl oedd wedi dangos cymaint o ddiddordeb yn y prosiect – ac un o'r mudladau hyn oedd Ysgol y Cwm!

Doedden ni ddim yn gallu credu ein llygaidd pan agorwyd y bocsys mawr du o flaen cynulleidfara'r ysgol yn ôl yn 2018 – roedd offerynnau taro di-ri, gitâr, ffidilau, recorders, clarinét a hyd yn oed telyn fach!

Am syr preis felly pan gysylltodd Chris i ddweud ei fod am ddodi ymweld â ni ym mis Hydref eienil! Wrth gwrs fe'i croesawyd i'r ysgol ac ar ôl i'r plant ddangos rhai o'r caneuon maent wedi dysgu ymunodd Chris â nhw gan ddangos ei fod yn hyddysg mewn rhythmau Amerig-Lladin hefyd wrth iddo chwarae'r cajon sef bocs pren sydd yn gwneud lle drymiau mewn mathau o gerddoriaeth werin yn Ne Amerig.

Rydym mor ddiolchgar am ymdrechion Chris i helpu ni yn y Wladfa gyda'r ymgyrch hon ac rydym yn gwybod bod gennym ffrind am oes yma ac edrychwn ymlaen at ei groesawu yn ôl yn y dyfodol agos pan fydd hyd yn oed mwy o blant wedi cael cyfleoedd na fyddent wedi eu cael heb i Chris Stock gael y syniad am y PIP (Prosiect Offerynnau Patagonia)

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi offerynnau neu arian hefyd. Mae'n bosib darllen mwy am y gwaith ar <https://www.patagonia-instrument-project.org.uk/> neu ar Facebook

Diolch Gruff



Mae diwedd y flwyddyn yn amser mor brysur ac yn llawn hapusrwydd achos cawn edrych yn ôl ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud ac er gwaetha popeth rydyn ni yma o hyd..ond hefyd mae teimlad o dristwch hefyd achos down ni at amser ffarwelio ffrindiau newydd hefyd. Cyrhaeddodd Gruffydd Evans ym mis Mawrth yn ei drowsus byr a'i glustffonau yn camu lawr grisiau o'r awyren yn Esquel yn llawn amheuan a chwestiynau..a deg mis yn ddiweddarach mae'r rhan fwyaf o'r amheuan wedi hen hedfan i ffwrdd a llu o gwestiynau newydd yn llenwi ei feddwl yn sicr!

Mae Gruff wedi bod yn gyson yn ei gefnogaeth i bopeth Cymraeg a Chymreig yn ystod y flwyddyn, yn y stafell ddesbarth gydag oedolion ac yn Ysgol 24 ac yn Ysgol y Cwm efo'r plant – bydd o'n colli'r sŵn o 'Seño Gruff, seño Gruff' pan fydd o yn ôl yng Nghymru siŵr! Mae o wedi dod o hyd i sgiliau nad oedd o'n meddwl oedd ganddo a thasai o wedi aros am flwyddyn arall byddai hyd yn oed coginio ar y rhestr dw i'n siŵr! Rhai o'r uchafbwyntiau yn sicr oedd canu mewn sawl achlysur cyhoeddus a hyd yn oed efo Rhys Meirion – ar y stryd y tu allan i dŷ cwrw Blest ond roedd y deuawd yn wych!

Trueni bod yr amser mor fyr i ddod i nabod ein swyddogion fel hyn ond hoffem ddweud diolch yn fawr iawn am fod efo ni eleni – yn bersonol roedd yn braf cael Gog i gydweithio efo am newid – a dymunwn bob llwyddiant yn y swydd yn ôl yn yr hen wlad. Brysia 'nôl!!! Hasta luego fel maen nhw'n dweud yma!



Diolch Margo

Mae Margo wedi bod yn gwirfoddoli gyda ni yn yr Andes ers mis Medi. Mae hi'n helpu gyda dosbarthiadau Cymraeg yn Esquel ac yn Nhrefelin. Mae hi'n weithgar tu hwnt, yn gyfeillgar ac yn llawer o hwyl.

Mae hi'n mynd am wyliau bach dros y Nadolig a dyn ni'n dymuno pob hwyl iddi. Ym mis Ionawr fydd hi'n dychwelyd er mwyn cynorthwyo gyda'r cwrs dwys i ddechreuwyd yn Nhrevelin. Diolch o galon i ti Margo am dy holl waith.



DIOLCH CWM HYFRYD



Dim ond gair bach i ddiolch am y croeso cynnes rydw i wedi derbyn yma dros y 10 mis olaf. O'r diwrnod cyntaf fe wnes i gyrraedd yma rydw i wedi teimlo yn hollol gartrefol ac mae'r diolch yna yn mynd i'r bobl sydd mor weithgar yn cadw'r iaith yn fyw mor bell o Gymru. Mae'r holl brofiadau (sy'n rhy hir i'w rhestru yma) wedi bod yn anhygoel ac mi fyddai yn cofio amdanyn nhw drwy gydol fy oes ond dwi'n siŵr mai cystadlu mewn Eisteddfod filoedd o filltiroedd i ffwrdd yw'r uchafbwynt.


Dim 'Hwyl fawr' ydy hyn ond 'Tan tro nesaf' oherwydd rydw i yn sicr fyddai yn ôl rhyw ddydd a chofiwch os ydych chi byth yn Gymru gyrrwch neges.

Diolch o waelod calon,

Gruffydd Ifan

Swyddog Datblygu'r Gymraeg 2019





DIOLCH CWM HYFRYD

Wrth i ddiwedd y flwyddyn agosáu mae wedi bod yn hyfryd cael y cyfle unwaith eto i gynhyrchu rhifyn o Llais yr Andes. Mae wedi bod yn braf clywed am hanes popeth gan fy mod i wedi bod yn byw yn y Dyffryn ers mis Awst.

Hoffwn gymryd y cyfle yma nid yn unig i ddiolch i bawb am ei gyfraniadau hael iawn i'r rhifyn yma ond hefyd am eich croeso cynnes yma yn y Wladfa. Mae'n anodd credu bod bron i 10 mis wedi bod ers i fi cyrraedd Esquel ar ddechrau'r flwyddyn. Dwi wir wedi mwynhau cael y cyfle i gyd-weithio gyda phawb yn y gymuned ac yn edrych ymlaen yn barod at ddod 'nôl rhyw ddiwrnod - ond ar wyliau tro nesaf! Cofiwch mai na chroeso cynnes i chi yng Nghymoedd De Cymru pryd bynnag da chi'n dod am dro i Gymru.

Tan y tro nesaf ffrindiau.

Sinead Harris
Swyddog Datblygu'r Gymraeg 2019

